# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## City & Guilds Llwybr iâ€™r Dyfodol




### Yn gryno

Mae’r cwrs hwn yn cefnogi unigolion sy’n dymuno datblygu’r sgiliau a’r agweddau a werthfawrogir gan gyflogwyr ac a ystyrir yn hanfodol er mwyn llwyddo mewn astudiaethau pellach.

### Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych yn 16-19 oed

... Nad ydych mewn cyflogaeth nac addysg ar hyn o bryd

... Hoffech ddatblygu sgiliau a magu hyder er mwyn symud ymlaen i gyflogaeth, addysg bellach neu brentisiaeth.

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn mynychu’r coleg am 18 awr yr wythnos. Yn ystod yr amser hwnnw, byddwch yn

astudio ar gyfer ystod o gymwysterau yn dibynnu ar eich sgiliau a'ch dysg flaenorol, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd. Bydd sesiynau profi mewn meysydd galwedigaethol yn rhan bwysig o'r rhaglen.

Bydd y cwrs hwn yn eich darparu gyda'r hyder a'r sgiliau i'ch helpu i wneud cynnydd. Os ydych yn awyddus i barhau i astudio ar ôl 16 oed, os oes gennych rwystrau rhag dysgu posibl neu heb fod yn siwr o'ch llwybr galwedigaethol dewisol, gall y cwrs hwn ddarparu'r cymorth a'r gefnogaeth sy'n gwneud eich siwrnai yn ôl i addysg neu gyflogaeth yn gliriach.

Mae'r cymwysterau a fydd yn cael eu hastudio yn cynnwys Cyflogadwyedd Lefel 1 neu 2, Llythrennedd, Rhifedd a Sesiynau Profi Galwedigaethol.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol; ceir mynediad drwy drafodaeth ynghylch cyngor ac arweiniad, ac atgyfeiriad.

Mae'n rhaid cael ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ynghyd â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd a hunangymhelliant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gallwch symud ymlaen i ystod eang o gyrsiau galwedigaethol llawn amser.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae modd ymuno â'r rhaglen hon unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, yn amodol ar atgyfeiriad neu drafodaeth gyda thiwtoriaid perthnasol